**CYPE(6)-25-22 – Papur i'w nodi 11**

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS/MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1 Rhagfyr 2022

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Hydref ynghylch gwerthuso'r cynllun peilot incwm sylfaenol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal.

Roddech wedi gofyn yn benodol am wybodaeth ynghylch ein gwaith i gasglu data sylfaenol a'r broses gaffael ar gyfer gwerthuso'r cynllun peilot.

Mae gwneud gwaith gwerthuso cadarn yn hanfodol ac yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Agwedd allweddol ar waith gwerthuso yw deall newidiadau o ran lles cyfranogwyr trwy gydol cyfnod y cynllun peilot (data sylfaenol). Bydd hyn yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o ba mor dda y mae'r cynllun peilot wedi gweithio i bobl ifanc sy'n gadael gofal drwy ddeall y newid yn lles y cyfranogwr ar bedwar pwynt penodol trwy gydol y cynllun peilot.

Rydym yn cydweithio â Coram Voice i gasglu'r data hyn gan ddefnyddio'u harolwg *Your Life Beyond Care*. Mae Coram Voice yn sefydliad hawliau plant blaenllaw. Maent yn hyrwyddo hawliau plant ac yn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed mewn penderfyniadau sydd o bwys iddynt. Maent hefyd yn gweithio i wella bywyd plant mewn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae'r arolygon *Your Life Beyond Care* wedi'u datblygu i fesur lles goddrychol plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, fel rhan o'r rhaglen Bright Spots. Partneriaeth rhwng Coram Voice a Chanolfan Rees ym Mhrifysgol Rhydychen yw rhaglen Bright Spots.

Cafodd arolwg *Your Life Beyond Care* ei gyd-gynhyrchu gyda phobl ifanc sydd wedi gadael gofal i adlewyrchu agweddau pwysig ar les o'u profiadau eu hunain. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu'r arolwg ymhellach i adlewyrchu'r canlyniadau'r cynllun peilot, gan gynnwys cyd-ddylunio cwestiynau ychwanegol gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'r gwerthuswr a benodwyd.

Bydd gofyn i bobl ifanc cymwys sydd â phrofiad o fod mewn gofal gwblhau'r arolwg fis ar ôl cofrestru yna ar fisoedd 6, 12 a 24 mis ar ôl cofrestru. Bydd hyn yn cynnwys pobl sydd wedi gadael gofal ac sydd wedi penderfynu peidio â chofrestru ar y cynllun peilot.

Rydym wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i ddatblygu dull o weinyddu'r arolwg. Cyhoeddwyd y gyfres gyntaf o arolygon y cynllun peilot Incwm Sylfaenol *Your Life Beyond Care* ar 17 Hydref 2022. Dyma gam cyffrous tuag at fesur effaith y cynllun peilot.

Rydym wedi cwblhau'r broses gaffael yn ddiweddar i osod contract pedair blynedd ar gyfer gwerthuso’r gweithredu, effaith a gwerth am arian. Rhoddwyd y contract i Prifysgol Caerdydd (Prif Ymchwilwyr, yr Athro Sally Holland ac David Westlake) a dechreuwyd ar y gwaith ar 10 Tachwedd 2022. Nawr bod y contract wedi'i gynnig, byddwn yn dechrau'r cyfnod cychwynnol i gadarnhau'r dull methodolegol a dechrau’r gweithgarwch ymchwil.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried sut mae'r ymchwil ethnograffeg ansoddol manwl yn cyd-fynd â dull gweithredu’r gwerthuswr a benodwyd yn ddiweddar a'r data a ddarperir gan yr Arolwg *Your Life Beyond Care*.

Bydd y cynllun peilot yn cael ei werthuso yn drylwyr dros y pedair blynedd nesaf er mwyn ystyried sut mae incwm sylfaenol yn effeithio ar les, sicrwydd ariannol a chyfleoedd bywyd unigolion.

Er hynny, mae’r amcanion yn parhau y tu hwnt i gyfnod cychwynnol y cynllun peilot. Mae disgwyl i effaith cael incwm sylfaenol barhau ar bob agwedd ar fywyd person, ymhell ar ôl i’r taliadau stopio. Y gobaith yw y bydd yn ehangu cyfleoedd neu’n darparu cyfleoedd newydd i bobl ifanc sy’n gadael gofal, na fyddai ar gael fel arall. Bydd y gwerthuswr a benodwyd yn gweithio i ddarparu fframwaith ar gyfer gwerthuso yn y dyfodol (gan gynnwys data gweinyddol cysylltiedig) fel y gallwn barhau i ddeall yr effaith hon yn y dyfodol.

O ran diweddariadau ar weithredu’r cynllun peilot ac unrhyw arwyddion cynnar o’i effaith, rydym yn hapus i rannu diweddariadau ar y rhaglen fonitro, gwerthuso ac ymchwil pan fyddant ar gael.

Yn gywir,

**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services